

Negeseuon allweddol o waith ymchwil: Gwasanaethau Plant – Comisiynu Strategol

Maddy Coy, Nicola Sharp-Jeffs a Liz Kelly

Ionawr 2017

Papur briffio i gomisiynwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol ym maes plant a gwasanaethau plant cysylltiedig yw hwn. Mae'n dod â negeseuon allweddol ynghyd o waith ymchwil ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ac yn nodi'r goblygiadau i'r broses gomisiynu. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canllawiau i weithwyr proffesiynol [[Dolenni at y canllawiau Cymraeg](#) a'r [canllawiau Saesneg](#)].

Negeseuon allweddol

- Mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio'n gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd.
- Gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i niwed – y rheini sydd wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol, y rheini sy'n ddigartref, sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau, y rheini sydd ag anabledd, sydd mewn gofal, sydd ddim mewn addysg, y rheini sydd wedi rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll o'u cartrefi neu o'u lleoliad gofal, neu'r rheini sydd mewn gangiau.
- Dylai asesiadau o raddfa ac anghenion fod yn seiliedig ar ddadansoddiad lleol o ddrwgweithredu a dioddef yng nghyswllt camfanteisio'n rhywiol ar blant.
- Mae sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ymysg gweithwyr proffesiynol a'u bod yn dysgu'n rheolaidd, a chynnwys ymarferwyr yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau, yn ffyrdd o drosglwyddo dulliau strategol o ddelio â chamfanteisio rhywiol i arferion rheng flaen.
- Mae gwasanaethau arbenigol yn gallu cynnig cymorth dwys a hyblyg i bobl ifanc, gan leihau nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio rhywiol a gwneud arbedion sylweddol o bosib.
- Mae lleoliadau sydd â gofalywyr maeth sy'n cael llawer o gefnogaeth ac sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ynghylch camfanteisio rhywiol yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sydd wedi bod mewn sefyllfa lle mae rhywun wedi camfanteisio'n rhywiol arnynt.
- Mae'n bwysig bod gan wasanaethau systemau i adnabod a mynd i'r afael â'r effaith emosiynol ar ymarferwyr sy'n helpu pobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol lle ceir elfen o gyfnewid er budd y drwgweithredwyr. Does dim un ffordd benodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CEOP, 2011; Berelowitz et al. 2012; Gohir, 2013; Research in Practice a Phrifysgol Greenwich, 2015). Mae meithrin perthynas amhriodol yn gyffredin mewn ambell ffurf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid yw hynny'n digwydd bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Mae achosion o gamfanteisio ar-lein a heb fod ar-lein yn gallu gorgyffwrdd (Fox a Kalkan, 2016). Os yw plant a phobl ifanc yn ymddangos fel pe baent yn cydweithredu, ni ddylid cymryd eu bod yn cydsynio: yn ôl y gyfraith, maent yn bobl ifanc dan oed a gallant gael eu gorfodi a'u rheoli mewn sawl ffordd. Mae'r ffyrdd hyn o gamddefnyddio pŵer yn debyg i'r rhai a welir mewn achosion o drais domestig.

Er bod tystiolaeth yr holl ymchwil hyd yma yn dangos mai genethod a merched ifanc yw'r mwyafrif helaeth o'r dioddefwyr, mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Ar gyfartaledd, rhwng 12 a 15 oed yw'r oedran y daw pryderon i'r amlwg am y tro cyntaf er bod

astudiaethau diweddar yn dangos bod mwy a mwy o bobl ifanc rhwng 8 ac 11 oed yn cael eu hatgyfeirio, yn enwedig yng nghyswllt camfanteisio ar-lein. Nid oes cymaint o wybodaeth ar gael am gamfanteisio ar blant a phobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016a; Sharp, 2013; Fox, 2016).

Nid oes dioddefwr ‘nodweddiadol’. Wedi dweud hynny, gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i niwed nag eraill. Mae amryw o ddangosyddion wedi cael eu nodi y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae’r dangosyddion hyn yn cynnwys: achosion blaenorol o gamdrin yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabledd; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll; a chysylltiadau â gangiau (Beckett et al. 2013; Brown et al. 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013). Nid ydym yn gwybod a yw’r rhain yn berthnasol hefyd i bobl ifanc lle mae’r broses o gamfanteisio arnynt yn cychwyn ar-lein neu’n digwydd yn llwyr ar-lein, er bod ambell ffactor i’w weld yn codi yn y ddau gyd-destun (Whittle et al. 2013). Mae camfanteisio rhywiol yn gallu tynnu cyfoedion i fod yn rhan hefyd mewn ffyrdd cymhleth, fel hwyluswyr, camdrinwyr neu wylwyr (Firmin, 2011; Beckett et al. 2013).

Nid yw dangosyddion yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Yr unig beth maent yn ei wneud yw awgrymu bod angen i ymarferwyr ddefnyddio’u barn a’u chwilfrydedd proffesiynol i weld beth yw sefyllfa pob person ifanc.

Asesu anghenion a chynllunio dulliau gweithredu

Mae camfanteisio rhywiol yn digwydd ym mhob ardal (Beckett a Schubotz, 2014; Berelowitz et al. 2012; Hughes a Thomas, 2016) a bydd proffiliau o’r broblem yn rhoi darlun i ni o’r hyn rydym yn ei wybod am faint o gamfanteisio rhywiol sy’n digwydd. Gellir ategu’r rhain gydag asesiadau lleol o raddfa’r broblem, tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer Asesiadau Strategol ar y Cyd o Anghenion a gwybodaeth gymunedol, gan gynnwys gwybodaeth gan deuluoedd/gofalwyr. Mae’r wybodaeth ar sail ymarfer sydd gan asiantaethau sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol (gan gynnwys Canolfannau Argyfwng Trais a chanolfannau cyfeirio achosion o ymosodiadau rhywiol) yn adnodd gwerthfawr arall.

“Cawsom gyfarfod amlasiantaeth – fe wnaeth pawb rannu’r wybodaeth a oedd ganddyn nhw, ac fe roddwyd y cyfan gyda’i gilydd... fe wnaethon ni glirio un wal a nodi enwau, cysylltiadau, lleoliadau maen nhw’n ymweld â nhw a mapio’r cyfan gan chwilio’n benodol am y cysylltiadau.”¹

Mae’n hollbwysig gallu adnabod y rheini sy’n camfanteisio’n rhywiol. Gan fod pobl ifanc a drwgweithredwyr yn aml yn croesi ffiniau awdurdodau lleol a/neu’n byw mewn un ardal ac yn cymdeithasu mewn ardal arall, mae partneriaethau rhanbarthol neu bartneriaethau rhwng bwrdeistrefi hefyd yn gallu bod yn werthfawr (Martin et al. 2014).

Ar lefel strategol, mae angen cysylltu gwaith ym maes camfanteisio’n rhywiol ar blant â dulliau lleol o ddelio â thrais yn erbyn menywod a merched ifanc (Brayley a Cockbain, 2014; Coy, 2016b) ac achosion o fynd ar goll, a chanllawiau cenedlaethol ar sut mae ymateb i fasnachu rhyngwladol a mewnol [[hyperddolen at NRM, canllawiau ar fasnachu pobl](#)]. Hefyd, nid yw camfanteisio rhywiol yn stopio pan fydd rhywun yn 18 oed (Coy, 2016b), ac mae’r cyfnod

¹ Dyfynwyd yn Jago et al. 2011

pontio â gwasanaethau oedolion yn golygu bod rhai pobl ifanc yn llithro drwy'r rhwyd. Mae rhai dulliau strategol o ymateb yn cydnabod gorgyffwrdd o'r fath a'r cysylltiadau hyn. Bydd cydweithio â chomisiynwyr mewn meysydd eraill e.e. yr heddlu, addysg ac iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl ac iechyd rhyw) hefyd yn gwella'r broses gynllunio.

Modelau diogelu

Yn sgil achosion troseddol uchel eu proffil, adroddiadau ar gamfanteisio rhywiol mewn ardaloedd lleol ac ymholiadau/archwiliadau, mae methiannau diogelu wedi dod i'r amlwg o ran arferion rheng flaen ac arweinyddiaeth strategol (e.e. Berelowitz et al. 2013, Casey, 2015; Jay, 2014; Ofsted, 2014). Mae gan gomisiynwyr rôl hanfodol i sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni, o ran darparu adnoddau a hyrwyddo arferion da.

Yn ôl Adolygiadau o Achosion Difrifol, mae strwythur gwasanaethau diogelu yn siapiro'r ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (e.e. Myers a Carmi, 2016). Mae'r dulliau traddodiadol o amddiffyn plant yn cael eu hymestyn gan ddynameg gymhleth camfanteisio rhywiol, a'r ystod o anghenion sydd gan bobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol (Pearce, 2014). Felly, un rhan allweddol o waith comisiynwyr yw adolygu a oes hyfforddiant arbenigol priodol ar gael, ac a yw'n cael ei ddarparu'n rheolaidd i ymarferwyr rheng flaen.

Mae cynlluniau strategol yn fwy tebygol o lwyddo os yw cynlluniau lleol yn seiliedig ar safbwyntiau a phrofiadau'r rheini sydd wedi cael eu cam-drin wrth i rywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt neu sydd wedi bod mewn perygl o hynny, eu rhieni/gofalwyr a thystiolaeth ymarferwyr sy'n seiliedig ar ymarfer. Gall comisiynwyr wahodd pobl ifanc sydd â phrofiad o wasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant i gael sgwrs ynghylch a yw'r ddarpariaeth bresennol yn bodloni eu hanghenion, a sut mae'n bodloni eu hanghenion (Ofsted, 2014; Webb a Holmes, 2015).

Mae gwaith atal yn elfen bwysig arall mewn dulliau strategol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae cynlluniau mewn ysgolion a chymunedau lleol sy'n cynnwys pobl ifanc, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gallu cynyddu eu gwybodaeth a'u hyder o ran cadw pobl ifanc yn ddiogel (D'Arcy et al. 2015; Bovarnick a Scott, 2016). Bydd y rhain yn fwy effeithiol os bydd pobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn gwirio'r negeseuon a'r deunyddiau.

Comisiynu gwasanaethau diogelu

Mae camfanteisio rhywiol yn broses, ac mae galluogi pobl ifanc i ddod o hyd i ffordd allan yn gallu bod yn debyg i'r gwaith o helpu'r rheini sydd wedi dioddef trais domestig: canolbwyntio ar gryfderau, asesu risg a chreu mwy o gyfle i weithredu – proses o 'ddiogelu cyson' (Pearce, 2009). Mae cymorth dwys yn rhoi i bobl ifanc yr ymdeimlad o ddiogelwch sydd ei angen arnynt ac yn gwrthbwysu 'tynfa' camfanteiswyr (Coy, 2009; Gilligan, 2016; Shuker, 2013).

Mae rhoi hyn ar waith mewn cyd-destun o lai o adnoddau, anawsterau recriwtio a galw cynyddol yn gryn her. Yn ôl gweithwyr cymdeithasol, byddai'n braf cael trefniadau gwaith sy'n rhoi mwy o gefnogaeth ac amser iddynt ganolbwyntio ar elfennau ymarferol eu rôl, gan gynnwys mwy o gyfle i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda phlant a phobl ifanc (Martin et al. 2014; Coy, 2016b).

Wrth dendro am gontractau a'u monitro, mae Adolygiadau o Achosion Difrifol yn awgrymu y dylid ystyried y materion canlynol (Myers a Carmi, 2016).

- Protocolau cyfeirio sy'n osgoi oedi.
- Lefelau staffio, gan gynnwys cymhareb gweithwyr/rheolwyr.
- Monitro llwyth gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ac nad yw'n rhy drwm.
- Gwaith goruchwylio sy'n galluogi gweithwyr i brosesu effeithiau emosiynol y broses o gefnogi pobl ifanc (gweler hefyd Webb a Holmes, 2015).
- Bod yn hyblyg ac ar gael i bobl ifanc y tu allan i oriau 9-5.

Mae rhoi cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr pobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol yn rhan o'r broses atal ac ymyrryd yn gynnar, yn ogystal â'u helpu i ailadeiladu eu bywydau (Hallett, 2015) drwy eu hannog i fod yn rhan o rwydweithiau gwarchodol (Palmer a Jenkins, 2014).

I bob gwasanaeth – rhai cyffredinol ac arbenigol – mae ystyried y norm o ran y rhywiau ymysg pobl ifanc yn rhan allweddol o'r gwaith ymyrryd ac atal (Webb a Holmes, 2015). Mae camfanteisio rhywiol wedi'i wreiddio yn y syniad o rywioli cyrff merched ifanc a safonau gwrywdod – beth mae'n ei olygu i fod yn fachgen neu'n ddyn ifanc (Coy, 2008; 2016a; Brayley et al. 2014). Gall comisiynwyr roi sylw i'r modd mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu.

Comisiynu gwasanaethau arbenigol

Gan fod camfantesio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, ac o gofio bod llawer ohonynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn y gorffennol (Coy, 2009; Hickie, 2016), mae timau arbenigol (yn y sector gwirfoddol neu statudol) sy'n arbenigo mewn effeithiau camfantesio a cham-drin yn rhoi cefnogaeth hollbwysig i bobl ifanc, teuluoedd/gofalwyr ac ymarferwyr.

Yn aml iawn, mae gwasanaethau arbenigol ar gamfantesio'n rhywiol ar blant yn gallu bod yn fwy hyblyg na gweithwyr cymdeithasol, ac yn gweithio gyda phobl ifanc am gyfnod hirach (Gilligan, 2016; Pearce, 2014; Scott et al. 2015). Mae ymyriadau gan wasanaethau arbenigol yn gallu lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamfantesio rhywiol. Mae gwaith ymyrryd yn gynnar sy'n lleihau'r risgiau hyn yn gallu arbed hyd at £12 am bob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau arbenigol ar gamfantesio rhywiol (Barnardo's, 2011).

Mae un dull diweddar – y model 'Hub and Spoke' – yn cydleoli gweithwyr arbenigol ym maes camfantesio'n rhywiol ar blant mewn gwahanol asiantaethau, e.e. gwasanaethau plant neu'r heddlu. Mae hyn yn creu cyfle i rannu arbenigedd, ond mae'n cymryd amser i sefydlu mentrau newydd mewn strwythurau gweithredu a llwybrau cyfeirio lleol (Harris et al. 2015; gweler hefyd Coy, 2016a).

Mae gan wasanaethau arbenigol rôl i'w chwarae hefyd o ran cynnal 'cyfweliadau dychwelyd annibynnol' gyda phobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll (Smeaton, 2013). Mae adolygiadau cenedlaethol yn dangos yn gyson nad yw cyfweliadau dychwelyd gyda phobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll yn cael eu cwblhau yn aml iawn, er gwaethaf cyfarwyddyd y dylid eu cwblhau (Smeaton, 2013). Mae cyfweliadau dychwelyd yn gyfle unigryw i adnabod arwyddion o gamfantesio rhywiol, ac i gasglu gwybodaeth leol am hynny ac am ddrwgweithredwyr (Arolygiaeth Cwnstablaieth Ei Mawrhydi, 2016; y Grŵp Seneddol Amlbleidiol

ar gyfer Plant, 2016). Mae helpu pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr i ddelio â'r prosesau cyfiawnder troseddol yn un o swyddogaethau hollbwysig eraill gwasanaethau arbenigol (Palmer a Jenkins, 2014).

Gwrthodwyd therapi cyn y treial i rai pobl ifanc oherwydd camargraffiadau na chaniateir cwnsela ar y cam hwn [[canllawiau CPS](#)], ac mae llawer yn teimlo'n unig wrth i'r gefnogaeth ddod i ben ar ôl i achosion ddirwyn i ben (Beckett a Warrington, 2015). Mae gallu cael gafael ar wasanaethau therapiwtig yn ystod achosion llys, ac ar ôl hynny, yn bwysig o ran lles pobl ifanc ac yn helpu'r broses o erlyn drwgweithredwyr.

Comisiynu llety i bobl ifanc

Mae'r cysylltiadau rhwng pobl ifanc 'sy'n derbyn gofal' a chamfanteisio rhywiol yn cael eu cydnabod yn gyffredinol (Beckett, 2011; Coy, 2009; Shuker, 2013). Er bod y problemau sy'n arwain at roi pobl ifanc mewn gofal yn gallu eu rhoi mewn perygl, mae'r profiad o'r broses ofal ei hun yn gallu bod yn arwyddocaol hefyd.

Mae angen i gynlluniau lleoli ar gyfer gofal preswyl a gofal maeth sicrhau:

- bod y broses ofal yn bodloni anghenion pobl ifanc, gan gynnwys ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas (Coy, 2008; 2009; Hallett, 2015);
- eu bod yn rhoi sylw i ddatblygu sefydlogrwydd emosiynol drwy leihau'r achosion o newid lleoliad sawl gwaith a newid gweithiwr cymdeithasol (Coy, 2008; 2009);
- nad yw'r bobl ifanc yn ymwneud â phobl ifanc eraill sydd hefyd mewn perygl mawr (Coy, 2008; 2009; Beckett, 2013); a
- bod digon o lefydd diogel ar gael i bobl ifanc sydd wedi cael eu masnachu at ddibenion camfanteisio rhywiol (Pearce et al. 2009).

Er mwyn gallu meithrin perthynas ac ymddiriedaeth, a mynd i'r afael ag effeithiau niweidiol camfanteisio, mae gofyn bod lleoliadau a chefnogaeth yn para am 12-18 mis o leiaf (Shuker, 2013).

Mae llety diogel yn sicrhau bod rhywun yn gorfforol ddiogel yn y tymor byr, ond anaml y bydd hynny'n mynd i'r afael â dyfnder ac ystod yr anghenion emosiynol a achosir gan gamfanteisio rhywiol, neu sy'n datblygu yn sgil hynny (Creegan et al. 2005; Coy, 2008; Hart a La Valle, 2016; Scott, 2016). Mae lleoliadau y tu allan i'r ardal hefyd yn amharu ar ddilyniant gofal, ac mae hynny'n fwy tebygol o ddigwydd pan fydd pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn llety diogel (Scott, 2016).

Mae'n rhaid i lety â chymorth ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned sicrhau nad yw drwgweithredwyr yn targedu'r lleoliadau hynny (Coy, 2008; Myers a Carmi, 2016).

Mae lleoliadau sy'n cynnwys gofalwyr maeth sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol, ac yn cynnig diogelwch corfforol a pherthynol iddynt (Pearce et al. 2009; Shuker, 2013). Mae tîm o weithwyr proffesiynol sy'n rhannu gwybodaeth am gamfanteisio rhywiol er mwyn cefnogi lleoliad yn cynyddu gallu'r lleoliad hwnnw i warchod (Shuker, 2013).

Cyfeiriadau

Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion sydd wedi Rhedeg i Ffwrdd ac sydd Ar Goll (2016) *Inquiry into the safeguarding of 'absent' children: 'It is good when someone cares'* Llundain: The Children's Society/Missing People

Barnardo's (2011) *Reducing the risk, cutting the cost: An assessment of the potential savings from Barnardo's interventions for young people who have been sexually exploited* Barkingside: Barnardo's

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Belfast: Barnardo's

Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: Prifysgol Swydd Bedford

Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. a Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Berelowitz, S., Clifton, J., Firmin, C., Gulyurtlu, S. ac Edwards, C. (2013) *"If only someone had listened": Office of the Children's Commissioner Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups. Final report* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Bovarnick, S. a Scott, S. (2016) *Child Sexual Exploitation Prevention Education: A Rapid Evidence Assessment* Luton: Prifysgol Swydd Bedford

Brayley, H. a Cockbain, E. (2014) *British Children Can Be Trafficked Too: Towards an Inclusive Definition of Internal Child Sex Trafficking* *Child Abuse Review* 23: 171–184

Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Prifysgol Coventry

Casey, L. (2015) *Reflections on child sexual exploitation* Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

CEOP (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* Llundain: CEOP

Coy, M. (2008) Young Women, Local Authority Care and Selling Sex *British Journal of Social Work* 38 (7), 1408–1424

Coy, M. (2009) 'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 18(4): 254–266

Coy, M. (2016a) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* Llundain: CWASU

Coy, M. (2016b) Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses *Critical Social Policy* Cyhoeddwyd ar-lein 5 Mai

Creegan, C., Scott, S. a Smith, R. (2005) *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland* Barkingside: Barnardo's

- D'Arcy, K., Dhaliwal, S., Thomas, R. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *Families and Communities Against Child Sexual Exploitation (FCASE) Final Evaluation Report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. a Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Gilligan, P. (2016) Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation? *Child Abuse Review* 25(2): 115–127
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* Llundain: Muslim Women's Network UK
- Hallett, S. (2015) 'An Uncomfortable Comfortableness': 'Care', Child Protection and Child Sexual Exploitation *British Journal of Social Work*: 46 (7): 2137–2152
- Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Harris, J., Roker, D., D'Arcy, K., Shuker, L. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *CSEFA Hub and Spoke Evaluation: Year Two Progress Report and Interim Findings 2014-15* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Hart, D. a La Valle, K. (2016) *Local authority use of secure placements* Llundain: Yr Adran Addysg
- Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (2016) *Missing children: who cares? The police response to missing and absent children* Llundain: Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
- Pwyllgor Materion Cartref (2013) *Child sexual exploitation and the response to localised grooming: Second report of Session 2013-14* Llundain: TSO
- Hughes, C. a Thomas, M. (2016) *'Gelli ymddiried ynof i...' Pobl ifanc yn mynd ar goll ac sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru* Barkingside: Barnardo's
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Jay, A. (2014) *Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham 1997–2013*. Ar gael ar-lein: http://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent_inquiry_cse_in_rotherham
- Martin, L., Brady, G., Kwhali, J., Brown, S. J., Crowe, S. a Matouskova, G. (2014) *Social workers' knowledge and confidence when working with cases of child sexual abuse: what are the issues and challenges?* Llundain: NSPCC

- Melrose, M. (2013) *Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis* in Melrose, M. a Pearce, J. (golygyddion) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* 9–22 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Palmer, E. a Jenkins, P. (2014) *Parents as Partners in Safeguarding Children: An evaluation of Pace's work in Four Lancashire Child Sexual Exploitation teams* Leeds: Pace
- Pearce, J. (2009) *Young people and sexual exploitation: It isn't hidden, you just aren't looking* Llundain: Routledge Falmer
- Pearce, J., Hynes, P. a Bovarnick, S (2009) *Breaking the wall of silence: Practitioners' responses to trafficked children and young people* Llundain: NSPCC
- Pearce, P. (2014) 'What's Going On' to Safeguard Children and Young People from Child Sexual Exploitation: A Review of Local Safeguarding Children Boards' Work to Protect Children from Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 23(3) 159:170
- Scott, S. (2016) *Aycliffe CSE innovation project: Evaluation report* Llundain: Yr Adran Addysg
- Sharp, N. (2013) Missing from discourse: South Asian young: women and sexual exploitation in Melrose, M. a Pearce, J. (golygyddion) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* tud. 96–109 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Shuker, L. (2013) 'Constructs of Safety for Children in Care Affected by Sexual Exploitation' in Melrose, M. a Pearce, J. (golygyddion) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's a Paradigm Research
- Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341–50
- Webb, J. a Holmes, D. (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: Evidence Scope* Totnes: Research in Practice.

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Yr Heddlu
- Comisiynu gwasanaethau'r heddlu'n strategol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion
- Gweithio amlasiantaethol

Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

www.csacentre.org.uk

©lonawr 2017